

S4C

Adroddiad Blynyddol a
Datganiad Ariannol ar
gyfer y cyfnod 12 mis hyd
at 31 Mawrth 2017

Annual Report & Statement
of Accounts for the 12
month period to 31 March
2017



The logo for S4C, consisting of the letters 'S4C' in white, bold, sans-serif font, set against a dark blue, trapezoidal background that tapers to the right.

**Adroddiad Blynyddol a
Datganiad Ariannol ar
gyfer y cyfnod 12 mis hyd
at 31 Mawrth 2017**

Cyflwynir Adroddiad Blynyddol
a Datganiad Ariannol S4C i'r
Senedd yn sgil paragraffau
13(1) a 13(2) i atodlen 6 Deddf
Darlledu 1990.

**S4C Annual Report &
Statement of Accounts for
the 12 month period
to 31 March 2017**

The Annual Report and
Statement of Accounts for S4C
are presented to Parliament
pursuant to paragraphs 13(1)
and 13(2) of schedule 6 to the
Broadcasting Act 1990.

Cynnwys

	Adroddiad Blynyddol
12	Cyflwyniad y Cadeirydd
14	Cyflwyniad y Prif Weithredwr
20	Sut berfformiodd S4C yn 2016/17
50	Blaenoriaethau Strategol S4C
60	Mesuryddion Perfformiad
95	Gwasanaethau cymorth i'n gwylwyr
103	Strwythur ac atebolrwydd S4C
107	Bwrdd Strategol a Rheoli S4C
108	Gwobrau ac Enwebiadau

Datganiad Ariannol

114	Adroddiad yr Awdurdod
118	Adroddiad Llywodraethiant
122	Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth
124	Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C
126	Datganiad o Gyfrifoldebau
128	Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Awdurdod S4C
130	Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr
132	Mantolen Gyfun
132	Mantolen S4C
134	Datganiad Cyfun o Newidiadau Mewn Ecwiti
136	Datganiad Llif Arian Cyfun
138	Nodiadau i'r Cyfrifon

Contents

Annual Report

12	Chairman's Introduction
14	Chief Executive's Introduction
20	How S4C performed in 2016/17
50	S4C's Strategic Priorities
60	Performance Measures
95	Support services for our audience
103	S4C's structure and accountability
107	S4C Strategic Management Board
108	Awards and Nominations

Statement of Accounts

114	Report of the Authority
118	Governance Report
122	Report of the Chairman of the Audit, Risk Management, Personnel and Remuneration Committee
124	S4C's Employment Policy Report
126	Statement of Responsibilities
128	Independent Auditor's report to the Members of the S4C Authority
130	Consolidated Statement of Comprehensive Income
132	Consolidated Balance Sheet
132	S4C Balance Sheet
134	Consolidated Statement of Changes in Equity
136	Consolidated Cash Flow Statement
138	Notes to the Accounts

© S4C 2017

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o s4c.cymru

© S4C 2017

The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is done so accurately and not in a misleading context.

The material must be acknowledged as S4C copyright and the document title specified.

This document is available for download from s4c.cymru

9.1 miliwn **9.1 million**

Nifer o bobl wylodd S4C drwy'r DU yn 2016/17 (2015/16: 9.9m)

Number of people who viewed S4C throughout the UK in 2016/17 (2015/16: 9.9m)

7.6 miliwn **7.6 million**

Sesiynau gwyllo ar-lein ar iPlayer ac S4C Arlein (2015/16 8.4m)

Online viewing sessions on iPlayer and S4C Arlein (2015/16 8.4m)

36,000 **36,000**

O wylwyr wedi mynychu digwyddiadau cyhoeddus S4C

Members of the audience attended S4C's public events across Wales

42.7 miliwn **42.7 million**

Oriau o gynnwys S4C a wylwyd (2015/16: 43.7m)

Hours of S4C content viewed (2015/16: 43.7m)

18 miliwn **18 million**

O sesiynau gwyllo ar gyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys Facebook, Twitter a YouTube)

viewing sessions on social media (including Facebook, Twitter and YouTube)

1,769 **1,769**

Oriau o raglenni gwreiddiol a ddarlledwyd

Hours of original programming broadcast

448,000 **448,000**

nifer sy'n gwyllo gwasanaeth Cyw bob mis (2015/16: 440,000)

Number who viewed the Cyw service each month on television (2015/16: 440,000)

173,000 **173,000**

Cynnydd o 7% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sy'n gwyllo yn ystod wythnos gyffredin (2015/16: 161,000)

Increase of 7% in the number of Welsh speakers in Wales who watched S4C on average each week (2015/16: 161,000)

50 **50**

Gweithiodd S4C gyda mwy na 50 o gwmnïau cynhyrchu

S4C worked with more than 50 production companies

5 miliwn **5 million**

O sesiynau gwyllo i eitemau byrion Heno a Pnawn Da

viewing sessions to Heno and Pnawn Da short form items

£170 miliwn **£170 million**

Effaith economaidd S4C ar economi'r DU

S4C's economic impact on the UK economy

1.3 miliwn **1.3 million**

Nifer wylodd raglenni o ddigwyddiadau'r flwyddyn ar deledu (2015/16: 1.9m)

Number of viewers who watched programmes from the year's events on television (2015/16: 1.9m)

614,000 **614,000**

Nifer y gwylwyr trwy'r DU yn ystod wythnos gyffredin (2015/16: 629,000)

Number of viewers throughout the UK in an average week (2015/16: 629,000)

£2.09 **£2.09**

Mae bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi gan S4C yn yr economi yn mwy na dyblu yn ei werth

Every £1 invested by S4C in the economy more than doubles in value

£11,211 **£11,211**

Cost yr awr gwasanaeth S4C yn 2016/17 (2015/16: 10,802)

Cost per hour of S4C's service in 2016/17 (2015/16: 10,802)

£39 miliwn **£39 million**

Refeniw treth sy'n deillio o weithgareddau S4C (amcangyfrif o effaith ffisgal blyneddol S4C)

Tax revenues generated by S4C's activities (S4C's estimated annual fiscal impact)

Nod S4C yw darparu cynnwys a gwasanaethau cyfryngol yn yr iaith Gymraeg sydd o safon uchel, sy'n cynnig adloniant, gwybodaeth ac sy'n ysbrydoli, ac sy'n cyrraedd cymaint o bobl â phosibl ar y llwyfannau cyfoes mwyaf priodol.

Mae S4C yn darparu gwasanaeth teledu ac ar-lein drwy'r iaith Gymraeg.

O fewn un sianel deledu, o chwech bob bore tan yn hwyr y nos, saith diwrnod yr wythnos, mae S4C yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr yn yr iaith Gymraeg ar draws ystod eang o genres ar gyfer pob rhan o'r gymuned yng Nghymru - o ran gallu ieithyddol, oedran a demograffig cymdeithasol.

Mae S4C yn ddarlledwr-gyhoeddwr sy'n comisiynu 1,700 awr o gynnwys gwreiddiol bob blwyddyn o'r sector gynhyrchu annibynnol, sy'n cael ei ddarlledu ynghyd ag isafswm o 520 o oriau a gynhyrchir ar gyfer y gwasanaeth gan BBC Cymru.

Mae S4C yn adlewyrchu amrywiaeth o fewn cymdeithas yng Nghymru ac o fewn y gynulleidfa Gymraeg.

Nod S4C yw i fod ar gael i bawb yng Nghymru, ar gyfer Cymry alltud ledled y DU, a lle'n bosibl ar sail fyd eang. Mae S4C yn ceisio cyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl drwy gynnig isdeitlo Saesneg dewisol ac, o bryd i'w gilydd, trac sain Saesneg dewisol.

Mae gwasanaeth teledu S4C ar gael ar Freeview ledled Cymru a hefyd ar lwyfannau Sky, Freesat, Virgin Media a YouView ar draws y DU.

Mae gwasanaeth S4C Arlein hefyd ar gael ledled y DU a, lle bo hawliau'n caniatáu, ar sail fyd eang. Mae cynnwys S4C ar gael ar iPlayer ar ystod o ddyfeisiau.

S4C's aim is to deliver high quality content and media services in the Welsh language that provide entertainment, information and inspiration, and that reach the widest possible audience across a range of contemporary platforms.

S4C provides a TV and online service through the medium of the Welsh language.

Within one television channel, from six o'clock every morning until late at night, seven days a week, S4C provides a comprehensive service of Welsh language content across a wide range of genres for all sections of the community in Wales - in terms of linguistic ability, age and social demographics.

S4C is a publisher-broadcaster that commissions 1,700 hours of original content each year from the independent production sector, which is broadcast together with at least 520 hours made for the service by BBC Cymru.

S4C reflects the diversity of society in Wales and within the Welsh audience.


S4C's aim is to be available to everybody in Wales, for the Welsh diaspora across the UK, and where possible on a worldwide basis. S4C seeks to reach the widest possible audience by offering optional English language subtitling and, for some content, an optional English language audio track.

S4C's TV service is available on Freeview across Wales and also on the Sky, Freesat, Virgin Media and YouView platforms across the UK.

S4C's online service is available throughout the UK and, where rights permit, its content is available on a worldwide basis. S4C's content is also available on iPlayer on a range of devices.


YR IAITH GYMRAEG

- Mae'r Gymraeg yn iaith fodern a chyfoes a ddefnyddir yn eang mewn cymunedau ledled Cymru a thu hwnt.
- Mae cyfraniad a chefnogaeth S4C yn allweddol er mwyn hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg.
- Mae rhagamcanion yn nodi y gallai'r nifer o siaradwyr Cymraeg gynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf.
- Mae Llywodraeth Cymru am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.
- Mae **19%** o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg ac mae cymuned sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn byw ar draws y DU a thu hwnt.
- Mae **40%** o blant yng Nghymru rhwng 5-15 oed yn siarad Cymraeg.
- Mae **26%** o gartrefi yng Nghymru yn cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg.



THE WELSH LANGUAGE

- Welsh is a vibrant and modern language, used widely in communities throughout Wales and beyond.
- S4C's contribution and support is key to promoting and developing the Welsh language.
- Projections indicate that the number of Welsh speakers could increase significantly over the next 20 years.
- The Welsh Government has stated its aim to increase the number of Welsh speakers to 1 million by 2050.
- **19%** of the population of Wales speak Welsh and a significant Welsh language community exists spread across the UK and further afield.
- **40%** of children in Wales between 5-15 years old speak Welsh.
- **26%** of homes in Wales have at least one Welsh speaker.



Cyflwyniad y Cadeirydd Huw Jones

Cymerwyd camau pwysig yn ystod 2016/17 i gynniig sicrwydd yn yr amgylchedd y mae S4C yn gweithredu o fewn iddo. Y gobaith yw y bydd hyn yn caniatáu i ni afael yn y cyfleoedd sy'n cael eu cynniig gan dechnoleg newydd, ar y naill law, a'r cynnydd tebygol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar y llaw arall.

Daeth y cytundeb gweithredol gydag Ymddiriedolaeth y BBC i ben ar Fawrth 31ain, 2017 wrth i swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth ddarvoud. Diolch i agwedd adeiladol a chydweithredol yr Ymddiriedolaeth a'i swyddogion fe weithiodd y berthynas hon yn effeithiol yn ystod pedair blynedd ei bodolaeth. Mae Siarter y BBC ar gyfer y cyfnod 2017-28 yn awr wedi creu strwythur newydd ac mae trafodaethau wedi cychwyn rhyngom a Bwrdd Unedol newydd y BBC. Rydym yn disgwyl yn fuan medru cytuno ar ddull priodol o roi cyfrif am y defnydd y mae S4C yn ei wneud o'r cyfran o'r drwydded deledu y mae'n ei dderbyn.

Yn y cyfamser, roeddem yn falch fod y cytundeb fframwaith rhwng y BBC a Llywodraeth y DU yn darparu sicrwydd cyllido i S4C o ffr'i'r drwydded am y pum mlynedd nesaf ar yr un lefel ag ar hyn o bryd. Credwn fod hyn yn ymateb priodol i'r cytundeb a drawyd ym Mehefin 2015, sef y byddai yna berthynas uniongyrchol rhwng yr arian y bydd S4C yn ei dderbyn o'r drwydded deledu â lefel cyllido'r BBC o'r un ffynhonnell. Er bod hyn yn ddo'i hun yn heriol, gan y bydd yn rhaid cyfarfod ag effeithiau chwyddiant heb gynnydd ariannol yn ystod y cyfnod, mae'r sefydlogrwydd y mae'n ei ddarparu yn galluogi swyddogion S4C a'r sector gynhyrchu i gynllunio ar gyfer y dyfodol gyda lefel uchel o hyder.

Rydym yn disgwyl cyhoeddiad am gylch gorchwyl Adolygiad y Llywodraeth o S4C. Un o'n gobeithion mawr yw y ceir, yn dilyn yr adolygiad hwn, gytundeb ynglŷn â pha broses y bydd y Llywodraeth yn ei dilyn wrth bennu cyfanswm yr hyn sy'n gyllid digonol ar gyfer S4C. Addawodd y Llywodraeth y byddai'r cyllid rydym yn ei dderbyn yn uniongyrchol ganddi yn cael ei rewi tra byddai'r Adolygiad yn cael ei gynnal.

Wrth baratoi ar gyfer yr Adolygiad, rydym wedi cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yn y ddogfen "S4C: Gwthio'r Ffiniau". Mae'r pwyslais ynddo'n drwm ar yr angen i ddiffinio gwasanaeth S4C yn y dyfodol yn nhermau darparu cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau, ym mha ffurf bynnaeg sy'n briodol i'r llwyfannau hynny, tra ar yr un pryd yn dal i ddarparu gwasanaeth teledu traddodiadol cyfoethog. Mae'n rhaid i'r Gymraeg gael ei gweld a'i defnyddio ar y cyfryngau torfol mwyaf cyfoes, os ydyw am ffynnu. Mae'n rhaid hefyd i'r cynnwys creadigol Cymraeg sy'n cael ei ariannu trwy S4C fod ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio mor eang fyth ag y mae technoleg gyfoes yn ei ganiatáu.

Mae pwysigrwydd darlledu fel elfen hanfodol o fywyd a diwylliant ein gwlad yn cael ei weld yn y flaenoriaeth a roddodd y Pwyllgor Dethol Seneddol ar Faterion Cymreig i'r pwnc yn ystod y flwyddyn, ac hefyd i'r ystyriaeth benodol o ddyfodol S4C a roddwyd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yn dda cael cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r ddau bwyllgor ac edrychwn ymlaen at eu hadroddiadau maes o law.

Mae'r gwasanaeth eleni wedi cyflwyno nifer o uchafbwyntiau eithriadol, yn enwedig ym maes drama a chwaraeon.

Cofnodwyd hanner canmlwyddiant trychineb Aberfan mewn modd cwbl gofiadwy a theilwng.

Roedd hi'n galonogol gweld cynnydd yn nifer y gwylwyr yng Nghymru sy'n troi i mewn bob wythnos ac yn arbennig felly yn y nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n gwneud hynny. Mae'r cynnydd trawiadol yn y defnydd o gynnwys S4C ar lwyfannau megis Facebook yn arwydd o'r ymdrechion amlwg gan S4C, gan gydweithio â'i bartneriaid yn y sector annibynnol, i fanteisio ar y cyfleoedd newydd yma.

Chairman's introduction Huw Jones

Important steps have been taken during 2016/17 to provide stability in the environment within which S4C operates. This will, we hope, allow us to seize the opportunities offered by new technology on the one hand and by the likely increase in the number of Welsh speakers on the other.

The Operating Agreement with the BBC Trust came to an end on March 31st 2017, with the termination of the Trust's functions. Thanks to the constructive approach taken by the Trust and its officers, this relationship worked effectively during the four years of its existence. The BBC Charter for 2017-28 has now created a new structure and discussions have commenced with the new Unitary BBC Board. We expect to be able to agree soon on an appropriate form of accounting for the use which S4C makes of the portion of the licence fee which it receives.

In the meantime, we were pleased that the framework agreement between the BBC and the UK Government provides S4C with security of funding from the licence fee for the next five years at current levels. This is, we believe, an appropriate response to the agreement struck in June 2015 that there would be a read-across between the funding which S4C receives from the licence fee and the level of BBC funding from the same source. Though stretching, in that the effects of inflation will have to be met with no increase in funding during the period, the stability provided enables S4C's officers and the production sector to plan for the future with a high degree of confidence.

We are awaiting an announcement regarding the terms of reference of the Government's review of S4C. One of our primary hopes is that, following this review, there will be agreement as to the process Government will follow in deciding on the overall sum which represents sufficient funding for S4C to fulfil its remit. The Government has promised that the funding we receive directly as grant in aid will be frozen while the review takes place.

As we prepare for the review, we have presented a vision for the future in the document entitled 'S4C: Pushing the Boundaries'. It reflects a strong emphasis on the need to define the S4C service in future in terms of providing content on a range of platforms, in whatever form is appropriate to those platforms, whilst at the same time continuing to provide a rich, traditional television service. The Welsh language must be seen and must be used on the most current mass media if it is to thrive. Also, the creative Welsh language content funded through S4C must be made available for use by the public as widely as modern technology permits.

The importance of broadcasting as an essential element of the life and culture of our country is seen in the priority given to the subject during the course of the year by the Parliamentary Welsh Affairs Select Committee, and also by the specific consideration of S4C's future given by the Culture, Communications and Welsh Language Committee of the National Assembly. We appreciated the opportunity to offer evidence to these two committees and we look forward to their reports in due course.

The service this year has delivered a number of exceptional highlights, particularly in the field of drama and sport.

The fiftieth anniversary of the Aberfan disaster was commemorated in a wholly memorable and appropriate manner.

It was heartening to see an increase in the number of viewers tuning in every week in Wales and in the numbers of Welsh speakers doing so in particular. The striking increase in the use of S4C content on platforms such as Facebook is an indication of the efforts by S4C, working with its partners in the independent sector, to take advantage of these new opportunities.

Mae'r gwaith wedi dechrau ar safle ein pencadlys newydd yng Nghaerfyrddin, Canolfan S4C/yr Egin. Ein blaenoriaeth gyntaf fydd sicrhau bod ein gwasanaeth presennol yn trosglwyddo'n ddi-dor i'r cartref newydd yn 2018, gan barchu'r anawsterau personol y mae'r symud yn anochel yn ei achosi i nifer o staff presennol a sicrhau fod sgiliau allweddol yn cael eu cadw. Wrth i'r darlun ynglŷn â'r swyddi newydd a fydd ar gael ddod yn gliriach, rydym yn gobeithio y bydd y boblogaeth eang sydd o fewn dalgylch teithio i Gaerfyrddin yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd gyrfa newydd fydd yn cael eu creu. Edrychwn ymlaen hefyd at weld gweledigaeth yr Egin, fel catalydd i ddatblygiadau pellach, yn cael ei gwredu.

Ddiwedd 2016, cafwyd y newyddion am fwriad ein Prif Weithredwr, Ian Jones, i ildio'r awenau o fewn y flwyddyn. Mae Ian wedi gwneud gwaith eithriadol wrth sefydlogi'r sianel a'r sector gynhyrchu, cynnal safon y gwasanaeth a mynd â ni i gyfeiriadau newydd, a hynny tra'n wynebu effaith y toriadau sylweddol a gyhoeddwyd cyn iddo gyrraedd. Mae'r bartneriaeth gynhyrchiol gyda'r BBC, a'r parch mawr y mae wedi'i ennill ymysg rhanddeiliaid yng Nghymru ac yn San Steffan, yn deyrnged i'w allu fel arweinydd a rheolwr. Dymunwn yn dda iawn iddo yn ei yrfa newydd, tra'n edrych ymlaen hefyd at groesawu ei olynydd, Owen Evans, ar y 1af o Hydref 2017.

Yn ystod y flwyddyn daeth tymor Marian Wyn Jones a Carol Bell fel aelodau o'r Awdurdod i ben. Hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad sylweddol i waith S4C ac i weddill yr aelodau am eu cefnogaeth a'u gwaith ar hyd y flwyddyn.

Yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i'r unigolion dawnus sy'n gweithio'n ddi-flino i greu rhaglenni – ffurf hir a ffurf fer, ar lwyfannau hen a newydd – sy'n rhoi pleser a mwynhad, neu'n cynyddu ein dealltwriaeth o'n byd a'n gwlad. Eich gwaith a'ch llwyddiant chi yw rheswm ein bodolaeth.

Huw Jones
Cadeirydd S4C

Work has started on the site of our new headquarters in Carmarthen – Canolfan S4C/yr Egin. Our first priority will be to ensure that the existing service transfers seamlessly to its new home in 2018 and that key skills are retained, recognising the personal difficulties that such a move inevitably causes for a number of current staff. As the picture regarding the new jobs which will be available becomes clearer, we anticipate that the sizeable population which lives within travelling distance of Carmarthen will respond enthusiastically to the new career opportunities which are being created. We look forward also to seeing the vision for the Egin, as a catalyst for further developments, being realised.

At the end of 2016 came the news of our Chief Executive, Ian Jones's intention to hand over the reins within the year. Ian has done exceptional work in giving stability to the channel and the production sector, sustaining the quality of the service and taking us in new directions, and doing so while facing up to the effects of the substantial cuts announced before he arrived. The constructive partnership with the BBC, and the great respect he has won amongst stakeholders in Wales and in Westminster, are a tribute to his talents as a leader and manager. We wish him well in his new career, while also looking forward to welcoming his successor, Owen Evans, on the 1st October 2017.

During the year the terms of Marian Wyn Jones and Carol Bell as members of the Authority came to an end. I would like to express my thanks to them for their substantial contribution to the work of S4C and to the remaining members for their support and work during the year.

More than anything, I wish to thank those talented individuals who work tirelessly to create programmes – long form and short form, on platforms old and new – which provide pleasure and enjoyment, or which advance our understanding of our world and our country. The work you produce and your success are our reason for being.

Huw Jones
S4C Chairman



Huw yn trafod gyda chriw Noson Gwylwyr Lerpwl, Chwefror 2017
Huw discussing S4C's service with the audience at the Liverpool Viewers' Evening, February 2017

Dyma fy adroddiad olaf ar berfformiad S4C cyn i mi basio'r awenau at Brif Weithredwr newydd, a fydd yn dechrau ym mis Hydref.

Cychwynnodd fy nghysylltiad personol i â'r sianel wrth iddi lansio nôl ym 1982 ac mae hi wedi bod yn fraint o'r radd flaenaf i fedru cyfrannu ychydig at ei datblygiad yn y dyddiau cynnar ac i ddychwelyd yn fwy diweddar fel Prif Weithredwr.

Fy marn i yn 1982, oedd mai comisiynu rhaglenni o'r ansawdd uchaf drwy gyfrwng y Gymraeg oedd unig rôl S4C. Bellach dwi'n hollol grediniol fod S4C, a llwyddiant S4C, yn golygu llawer mwy na hynny. Mae'n gwbl greiddiol i ddyfodol yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Mae'n hanfodol i ni sicrhau bod rôl S4C yn esblygu, i fod yn gyfrifol am greu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd ar bob llwyfan (ar deledu ac ar-lein); sicrhau ei le a'i amlygrwydd ar gynifer o lwyfannau â sy'n bosib; sicrhau'r adnodd digonol i wneud hyn ac yn esblygu i fod yn ddarparwr cynnwys gwasanaethau cyhoeddus. Dyma'r unig ffordd o wasanaethu'r boblogaeth Gymraeg yn ei chyfanrwydd, a dyma brif her y dyfodol er mwyn creu cyfleoedd cyffrous i'r gynulleidfa a chyfraniad angenrheidiol i ddyfodol yr iaith Gymraeg.

This is my last report on S4C's performance before I pass the baton on to a new Chief Executive, who will arrive in October.

My personal connection with the channel began as it launched back in 1982 and it has been an honour for me to make a contribution to its development in those early days and to return more recently as Chief Executive.

My view in 1982 was that S4C's only role was to commission high quality Welsh language programming. By now, I am utterly convinced that S4C, and its success, mean much more than that. It is fundamental to the future of the Welsh language and culture. It is essential that we ensure that S4C's role evolves, to be responsible for creating content for audiences on all platforms (on TV and online); to ensure its presence and its prominence on as many platforms as possible; to secure sufficient resource to achieve this and to evolve into a public service media content provider. That is the only way to serve the Welsh speaking population as a whole, which is the main future challenge in order to create exciting new opportunities for the audience and an essential contribution to the future of the Welsh language.



Ymwneud â'r gwasanaethau

Ychydig cyn i'r llywodraeth gyhoeddi y byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal yn 2017, mi wnaethom gyhoeddi'n gwledigaeth ar gyfer y dafodol: “S4C: Gwthio'r Ffiniau. Gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg ar bob Llwyfan”. Ry'n ni'n dweud yn y ddogfen yma, bod y Gymraeg yn iaith sy'n ffynnu – ac mae'r adroddiad blynyddol hwn yn tystio i hynny, ac i'r rôl fyw y mae S4C yn ei chwarae ym mywyd yr iaith.

Ar ôl adrodd ar ffigyrau oedd yr uchaf ers naw mlynedd yn adroddiad blynyddol y llynedd, mi oedd y bar wedi'i osod yn uchel. Ond mae'r gwasanaeth eleni wedi cwrdd â safonau'r llynedd mewn llawer o'n mesurymddion allweddol – ac hyd yn oed wedi'u pasio mewn rhai.

Yn un o'r ychydig sianeli gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i gynyddu'n cyrhaeddiad (yn seiliedig ar 3 munud wythnosol), mae ein strategaeth o ymdrechu i droi mwy o'n gwylwyr achlysurol yn wylwyr cyson yn dechrau dwyn ffrwyth yng Nghymru'n enwedig. Mae'r darlun anwadal y tu allan i Gymru yn parhau, ac mae'r diffyg cysonder o flwyddyn i flwyddyn yn golygu ein bod yn parhau i drin yr ystadegau hynny gyda chryn ofal, er bod y tueddiadau tymor-hwy ar i fyny yn glir.

Mae 'na un mesurymdd sydd yn codiwestiynau, ac yn galw am ragor o ddadansoddi – sef y cwymp yn y niferoedd sy'n gwylïo cynnwys S4C ar y BBC iPlayer. Mi fydd angen i waith barhau ar hynny – ond mae mantais ein presenoldeb ar yr iPlayer yn glir o hyd.

Mae'n gweithgareddau eraill ar y llwyfannau digidol wedi galluogi niferoedd cynyddol o bobl i ymwneud â'n cynnwys, ac mae hi wedi bod yn braf iawn i weld gweithgaredd, yn ogystal â chreadigrwydd a mentergarwch yn y maes hwn yn carlamu ymlaen. Pan mae fidio gan ein hadran hyrwyddo yn cael ei chwarae bron i 200 mil o weithiau ar y cyfryngau cymdeithasol, fel digwyddodd yn achos ein fidio o aelodau carfan bêl-droed Cymru'n dweud diolch, mae'n rhaid bod nodyn cywir yn cael ei daro.

Ar y cyfan mae'r perfformiad yn nhermau faint o bobl sydd wedi ymwneud â'r gwasanaeth i'w ddathlu eto eleni felly – ond ddylen ni ddim anghofio ein bod dirfawr angen ehangu cylch gorchwyl statudol S4C er mwyn ei galluogi i gomisiynu a dosbarthu cynnwys sy'n cael ei dargedu at gynulleidfaoedd ar ba lwyfan bynnag y maen nhw'n dewis gwylïo.

Mae'r lefel o werthfawrogiad i wasanaeth S4C yn 2016/17 unwaith eto'n uchel iawn. Rwy'n falch o ddweud bod y gwerthfawrogiad ar gyfer y sianel gyfan wedi cynyddu – ac yn uwch na'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd ar gael yng Nghymru. Yn ogystal fe welwch fod gwerthfawrogiad ar gyfer rhai o'n prif brosiectau cynnwys oedd wedi'u darlledu yn eithriadol o uchel – Pencampwriaethau Pêl-droed yr Ewros, cofio trychineb Aberfan, a'n dramâu Y Gwyll a Parch i enwi rhai ohonynt.

Mae'r rhain yn adlewyrchu'n dda iawn ar yr holl waith caled sy'n cael ei wneud o fewn S4C, a chan ein partneriaid yn y sector cynhyrchu yn enwedig, i sicrhau bod ein rhaglenni yn cwrdd â disgwyliadau'r gynulleidfa.

Ymwneud â'r gynulleidfa
Roedd 2016/17 yn flwyddyn o weithgaredd newydd wrth i ni harnessu'r dechnoleg ddiweddara' i ymgysylltu â phobl a'u cymunedau.

Mae'n gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol yn brawf o'n hymdrechion i fod yn rhan o fywydau bob dydd gan hyrwyddo'n cynnwys a'n gwasanaeth mewn ffyrdd deniadol a hwyliog. Mae'r tîm yn fewnol wedi newid gêr yn aruthrol – gan olygu ein bod ni bellach yn galluogi i'n cynnwys gael ei wlyio fliynau o weithiau y mis. Lai na dwy flynedd yn ôl, roedd y ffigyrau hyn yn eu degau o filoedd, sy'n dangos gymaint mae arferion gwylïo'r cyhoedd wedi newid a chymaint o botensial sydd i ni a'n partneriaid yn y sector cynhyrchu ar y llwyfannau digidol.

Ond rydym yn llwyr ymwybodol o'r perygl o feddwl mai llwyfannau digidol fydd yn ein galluogi i gyflawni'n holl amcanion cyfathrebu. Mae ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb a chynnig gweithgareddau a phrofiadau byw yn parhau'n rhan annatod o'n hymdrechion.

Mae'r tîm wedi cydweithio â swyddogion cyngor Gwynedd wrth iddyn nhw weithredu cynllun hyrwyddo defnydd iaith sy'n cynnwys defnydd o'r cyfryngau. Mae'r canfyddiadau cynnar wedi bod yn addawol wrth i ni fanteisio ar gyfleoedd i weithio gydag eraill i gyrraedd siaradwyr Cymraeg ac hyrwyddo'n cynnwys iddyn nhw.

Yn yr un modd, mae'r tîm wedi gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc o ysgolion ar draws y cymoedd wrth i gyfres Gwaith/Cartref fynd yn ôl ar yr awyr. Rwy'n gobeithio bod S4C wedi rhoi profiadau Cymraeg gwerthfawr i'r myfyrwyr hyn, ac ar yr un pryd, mae S4C yn elwa o gael mewnbwn ac adborth y bobl ifanc. Yn yr achosion hyn mae eu cyfraniad wedi bod yn arbennig o werthfawr gan fod nifer o'r myfyrwyr a siaradodd â ni'n byw mewn cartrefi cymysg eu hiaith.

Engagement with services

Just before the government announced that a general election would be held in 2017, we published our vision for the future: “S4C: Pushing the Boundaries. Multi-platform Welsh Language Media Service”. We say in this document that the Welsh language is flourishing – and this annual report is further proof of that and of the living role S4C plays in the life of the language.

After reporting on figures in last year’s Annual Report which were the highest in nine years, the bar had been set high. But the service this year has met last year’s standards in many of the key indicators, and has even surpassed them in some.

As one of the few public service channels in Wales to increase reach (based on 3 minute weekly), our strategy of working to turn occasional viewers into more regular viewers is beginning to reap rewards in Wales in particular. The volatile picture outside Wales continued, and the lack of consistency from year to year means that we continue to treat these statistics with some care, although longer-term trends are clearly positive.

There is one measure which raises questions, and calls for further analysis – that is the fall in viewing sessions of S4C content on the BBC iPlayer. Work will need to continue on that, but the advantage gained by our presence on the iPlayer is still clear.

Other activities on digital platforms have enabled audiences to engage with our content in increasing numbers, and it has been wonderful to see the level of activity as well as creativity and enterprise in this area taking great strides forward. When one of our promotional videos is viewed nearly 200 thousand times online, as was the case with our film of members of the Welsh football squad saying “Diolch”, or thank you, then the team must be striking the right cord.

Therefore, on the whole, the performance in terms of how many people have engaged with the service is to be celebrated again this year – but we should not forget that there is an urgent need to broaden S4C’s statutory remit in order to enable it to commission and distribute content which is targeted specifically for audiences on whichever platform they choose to view.

The level of appreciation for S4C’s service in 2016/17 is once again very high. I’m please to say that the appreciation for the channel as a whole has increased, and is higher than the other public service channels available in Wales. In addition, you will see that appreciation levels for some of our main content projects broadcast during the year were exceptionally high – the European Football Championships, the Aberfan disaster commemorations, and our dramas such as Y Gwyll/Hinterland and Parch to name a few.

These reflect very well indeed on all the hard work which is achieved within S4C and by our partners in the production sector in particular, to ensure that programmes reach audience expectations.

Engagement with the audience
2016/17 was a year of new activity as we harnessed the latest technology to engage with people and their communities.

Our activities on social media are proof of our efforts to be a part of everyday lives, promoting our service in attractive and fun ways. The team internally has changed gear greatly – meaning that we now enable our content to be viewed millions of times each month. Less than two years ago, these figures were in the tens of thousands, which shows how much public viewing habits have changed and how much potential exists, for us and our partners in the production sector, on digital platforms.

But we’re fully aware of the dangers of thinking that its digital platforms which will enable us to achieve all our communications objectives. Engaging with people face to face, and offering live activities and experiences continue to be a key element of our offer.

The team has collaborated with Gwynedd council as they operate a language promotion scheme which includes the use of the media. The initial findings have been promising as we utilise opportunities to work with others to reach Welsh speakers and promote content to them.

Similarly, the team worked with groups of young people from schools across the valleys region as our Gwaith/Cartref series went on air. I hope that S4C has offered valuable Welsh language experiences to these students, and at the same time, S4C has benefited from gaining the input and feedback from the young people. In these cases, their contributions have been particularly valuable as a number of the students that spoke to us lived in mixed language homes.

Understanding the needs of the audience in general, and the various sub-groups of the Welsh language audience – is fundamental to the

Mae deall anghenion y gynulleidfa yn gyffredinol – a'r gwahanol is-garfanau o'r gynulleidfa Gymraeg – yn greiddiol i lwyddiant S4C. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau a chynnwys y mae'r cynulleidfaoedd hynny yn dymuno eu gweld, a'u darparu ar eu telerau nhw eu hunain.

Bellach mewn byd curadu cynnwys a rhestrau chwarae personol, y nod yw sicrhau fod y cynnwys iawn yn cyrraedd y gynulleidfa iawn, yn y ffurf maen nhw eisiau, ar yr adeg maen nhw'n ei ddymuno.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi dadlau'n gyson bod angen sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn cael lle amlwg ar lwyfannau digidol – fel sy'n cael ei ganiatáu ar lwyfannau darlledu. Mae hyn yn fater o bwys, nid yn unig i ddyfodol S4C fel yr unig ddarllledwr Cymraeg, ond yn wir i ddyfodol cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol a'r gwerth aruthrol y mae'n ei gynnig i gymdeithas.

Cynnwys
Unwaith eto eleni, mae S4C wedi gweithio gyda thros hanner cant o gwmnïau a sefydliadau unigol yn y sector cynhyrchu. Mae'r BBC ac ITV yn gyflenwyr pwysig i ni fel y mae'r degau o gwmnïau annibynnol mawr a bach sy'n gweithio ar hyd a lled Cymru a'r tu hwnt. Mae'r amrywiaeth a phlwraliaeth yn y sector yma'n gwasanaethu S4C a'n cynulleidfaoedd yn dda, ac rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl ymdrechion a chydweithio sydd wedi bod unwaith eto. Rwy'n credu o ddifri bod y diwydiannau creadigol yn un o gryfderau mawr economi Cymru. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi profi bod yr ecosystem yn fregus, ond mae gallu'n cwmnïau annibynnol i ganfod cyfleoedd newydd o dan amgylchiadau newydd yn dystiolaeth o'r mentergarwch a chreadigrwydd fydd yn eu cynnal i'r hir-dymor.

Ar y sgrin, roedd 2016/17 yn flwyddyn llawn tystiolaeth o'r mentergarwch a chreadigrwydd hynny gyda chynnwys y gallwn ni yn S4C a'r sector creadigol cyfan, fod yn falch iawn ohono.

Un o'r themâu cyson rwyf wedi'u codi dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys wrth yhoeddi adroddiadau blynyddol, yw'r angen i ni fedru cynnig mwy o ddrama o ansawdd uchel. Yn hyn o beth mae'n braf iawn i gael adrodd ar flwyddyn sy'n cynnwys nifer o uchafbwyntiau yn y genre hon. Mae'r rhestr o uchafbwyntiau'n un anrhydeddus o hir o fewn un flwyddyn - Y Gwyll/Hinterland, Byw Celwydd, Parch, 35 Diwrnod a Gwaith/Cartref – gan awgrymu ein bod ni wedi llwyddo i ddarparu cryn gysonder yn y maes hwn.

Ym maes adloniant hefyd, mae'r pwyslais wedi bod ar gynnydd. Mae'r ystod o ddarpariaeth wedi bod yn eang iawn - Standyp gan Elis James, Tudur Owen ac eraill, a chynnwys comedi gwreiddiol arall yn Dim byd a 'Run Sbit; gwylïo ysgafn fel Jonathan, Priodas Pum Mil, Celwydd Noeth ac Ar y Dibyn; ac adloniant mwy ffeithiol ei naws fel Loriau Mansel Davies a'i fab a Doctoriaid Yfory. Mae hyn yn cynnig rhywbeth i nifer o garfannau o fewn y gynulleidfa, ond rwy'n cydnabod bod lledaenu'n hymdrechion i ddarparu adloniant ar gyfer ystod mor eang o garfannau yn golygu nad ydym yn medru canolbwyntio'n hymdrechion ar nifer llai o brosiectau cynnwys. Rwy'n gobeithio y bydd yr effaith yma'n lleihau rywfaint os yw cylch gorchwyl S4C yn cael ei ehangu yn y dyfodol.

I gynulleidfaoedd ifanc yn benodol, mae 'na nifer o lwyddiannau nodedig. Mae Deian a Loli wedi profi'n boblogaidd tu hwnt o fewn gwasanaeth Cyw, ac yn yr un modd mae'n amlwg bod Patrol Pawennau, Jen a Jim Pob Dim wedi cydio yn nychymyg y gynulleidfa hon, fel y mae TAG i'r rheini sydd ychydig yn hŷn. Gyda hyn mewn golwg, mae'n glir y bydd hi'n bwysig i S4C barhau i weithio'n galed i ganfod y balans cywir rhwng comisiynau gwreiddiol i blant a phryniannau. Mae'r lefel o risg gyda phryniannau yn llai o lawer wrth gwrs gan y gallwn ddod â chynnyrch i mewn sydd yn offenedig a wedi'i brofi gerbron cynulleidfaoedd targed. Ond mae'r cynnwys hwnnw i'w gael ar sianeli eraill yn Saesneg, ac fel ar draws ein cynnwys, rydym yn ymwybodol bod angen i ni weithio gyda'r sector creadigol yma i sicrhau bod cynnwys gwreiddiol newydd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer ein cynulleidfaoedd.

O ran newyddion a materion cyfoes, gellid dadlau bod y flwyddyn yma wedi cynnwys un o'r cyfnodau mwyaf cyffrous a phrysur yn hanes diweddar gwleidyddiaeth Cymru. Gydag etholiad cyffredinol Cymru ym mis Mai, cyn refferendwm mis Mehefin ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, roedd yn gyfnod unigryw oedd yn galw am drafodaeth lawn a gofalus am bynciau pwysig tu hwnt. Roeddwn yn falch iawn bod S4C wedi chwarae rhan iawn mewn sicrhau bod trafodaeth eang o'r fath wedi'i chynnal – a hynny mewn amrywiaeth o raglenni gan nifer o gynhyrchwyr. Gyda rhaglenni trafod, cyfweliadau unigol gyda'r prif bleidiau, dadleuon ac eitemau diddordeb arbennig, does dim dwywaith bod S4C wedi hybu ac hyrwyddo trafodaeth genedlaethol wrth arwain at y pleidleisiau. Yn naturiol hefyd, wrth i'r gorsafodd pleidleisio gau, fe gafwyd gwasanaeth canlyniadau llawn ar nosweithiau'r cyfrif hefyd. Yn ychwanegol i'r etholiad a'r refferendwm yma, fe roddwyd sylw arbennig mewn rhaglenni penodol a rheolaidd i ras arlywyddol Unol Daleithiau America – digwyddiad hanesyddol arall mewn blwyddyn a fydd yn aros yn hir yn y cof. Caffodd y cwbl ei lywio a'i gyflwyno gan dim profiadol

success of S4C. This will enable us to both provide services and content audiences wish to view, and deliver them on the audiences own terms.

Now, in a world of content curation and personalised play-lists, the aim is to ensure that the right content reaches the right audience, in the form they want, when they want it.

During the year we have argued consistently that we need to ensure that public service content enjoys prominence on digital platforms – as is the case on broadcast TV platforms. This is a matter of clear importance, not only for the future of S4C as the only Welsh language broadcaster, but also for the future of public service content in general and the huge value it contributes to society.

Content
Once again this year, S4C has worked with over fifty companies and organisations in the production sector. The BBC and ITV are important suppliers to us as are the tens of independent companies, large and small, which work in all parts of Wales and beyond. The variety and plurality in this sector serves S4C and the audience well, and I'm very grateful for all the efforts and collaboration between us once again. I truly believe that the creative industries are one of the Welsh economy's great strengths. Recent years have shown that the ecosystem is fragile, but our independent sector's ability to find new opportunities under new circumstances is proof of the enterprise and creativity which will sustain it for the long-term.

On-screen, 2016/17 was a year full of evidence of that enterprise and creativity, with content of which we at S4C, and the creative sector as a whole, can be very proud.

One of the running themes I have raised over recent years, including while publishing annual reports, is the need for us to be able to offer more high quality drama. In this regard, it is very pleasing to report on a year which includes a number of highlights in this genre. The list of such highlights is honourably long within the year – Y Gwyll/Hinterland, Byw Celwydd, Parch, 35 Diwrnod, and Gwaith/Cartref – suggesting that we have succeeded in providing some consistency in this field.

In entertainment too, the emphasis has been on increasing provision. The range of programming has been very broad – Stand-up by Elis James, Tudur Owen and others, and other original comedy content in Dim Byd and 'Run Sbit; lighter viewing such as Jonathan, Priodas Pum Mil, Celwydd Noeth and Ar y Dibyn; and more factual based entertainment such as Loriau Mansel Davies a'i fab and Doctoriaid Yfory. This offers something to a number of audience groups, but I recognise that spreading our efforts to provide entertainment for such a broad range of groups means that we're not able to focus our efforts on fewer content projects. I hope this effect will reduce somewhat if S4C's remit is broadened in future.

For the young audience specifically, there have been a number of notable successes. Deian a Loli has proven particularly popular within the Cyw service, and similarly it is clear that Patrol Pawennau and Jen a Jim Pob Dim have grabbed the imagination of this audience, as has TAG for those who are a little older. With this in mind, it is clear that it will be important for S4C to continue to work hard to strike the right balance between original commissions for children and acquisitions. The risk level with acquisitions is significantly less of course as we can bring in productions which are the finished article, and proven hits with their target audiences. But this content can be found on other channels in English, and as with all our content, we're aware that we need to work with the creative sector here to ensure that new original content is produced for our audiences.

In the area of news and current affairs, one could argue that this year included one of the busiest and most exciting periods in the recent history of Welsh politics. With a Welsh general election in May, before the referendum in June on the UK's membership of the European Union, it was a unique period which called for a full and careful discussion of particularly weighty issues. I was very proud that S4C played a full part in ensuring that just such a broad discussion was held – and held within a variety of programmes by a number of producers. With discussion programmes, individual interviews with the main parties, debates and special interest items, there is no doubt that S4C promoted and boosted the national conversation as we approached the votes. Naturally, as the voting booths closed, we also ran full results services on the evenings of the counts. In addition to the election and referendum, we also gave special attention in specific and regular programming to the American Presidential election – another historic event in a year which will live long in the memory. This was all produced and presented by the experienced teams which provide S4C's news and current affairs services, which have grown evermore highly respected.

As well as the continuation of our current affairs series, Y Byd ar Bedwar, which has continued to break new stories and delve further with great success into matters that have already reached the public eye, other

sy'n darparu gwasanaethau newyddion a materion cyfoes ar S4C sydd wedi datblygu'n uchel iawn eu parch a'u hygredded.

Yn ogystal â pharhad ein cyfres materion cyfoes Y Byd ar Bedwar sydd wedi dal i dorri straeon newydd a thyrchu ymhellach i faterion sydd eisoes yn llygad y cyhoedd gyda chryn lwyddiant, mae rhaglenni ffeithiol eraill wedi profi'n boblogaidd iawn. O hanesion rhai o'n troseddau mwyaf difrifol yn Y Ditectif, i gymeriadau hoffus ac ysbrydoledig Ward Plant. Cafwyd arlwy agos atoch yn Cymoedd Roy Noble, Pobl y Rhondda ac Arfordir Cymru: Bae Ceredigion a thymor o raglenni i gofio hanner can mlynedd ers trychineb Aberfan. Roedd yn fraint i gael comisiynu a darlledu gwaith rhagorol Syr Karl Jenkins a Mererid Hopwood, Cantata Memoria – digwyddiad emosiy nol tu hwnt. Mae'r Cantata Memoria yn deyrnged oesol i'r rhai a laddwyd yn Aberfan ac urddas eu teuluoedd. Bydd bod yn rhan o'r digwyddiad hwn, i gofio erchyllterau'r diwrnod hwnnw yn '66, yn aros gyda fi am byth.

Mi roedd y gyngerdd goffa honno'n ddigwyddiad mawr ynndo ei hun i S4C, ac roedd ein gwasanaethau o ddigwyddiadau cenedlaethol eraill yn helaeth ac yn llawn. O Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, ac Eisteddfod yr Urdd, i achlysuron mwya' misoedd yr haf, sef yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol o Lanelwedd - roedd miloedd lawer o bobl wedi gallu mwynhau'n digwyddiadau cenedlaethol hyd yn oed os nad oedd modd iddynt fod yno eu hunain. Mae'n wasanaeth sy'n ymestyn yn bell – gan alluogi cynulleidfaoedd amrywiol yng Nghymru, drwy'r DU a thramor i fwynhau'n rhaglenni.

Ac ym maes chwaraeon, roedd yn flwyddyn arall o lwyddiant mawr. I ddilynwyr pêl-droed, rydym yn falch o gyninig llwyfan i uwch-gynghrai pêl-droed Cymru yn ogystal â dangos gemau'r tîm cenedlaethol. Fe fydd 2016 yn cael ei chofio am byth fel blwyddyn o orfoledd i ddilynwyr tîm Cymru wrth iddo gyrraedd rowndiau terfynol pencampwriaethau Ewrop. Roedd yn fraint anhygoel i gael darlledu gemau'r tîm cenedlaethol i gyd yn fyw ar S4C, ynghyd ag ystod o raglenni atodol a oedd heb os yn adlewyrchu mawredd a chyffro'r cyfnod i gymaint.

Ac wrth i'r flwyddyn adrodd hon ddod i ben, mi roedd yn gyfnod cyffrous yn fewnol hefyd gyda'n golygon ar y dyfodol wrth i ni gyhoeddi strategaeth gynnwys newydd.

Mae'r strategaeth hon yn rhoi arweiniad creadigol a golygyddol cryf i'r rheini sydd a'u golygon ar gyflenwi cynnwys i S4C. Rydym am greu'r sgwrs, cyffwrdd â'r galon, a thanio'r dychymyg - gan greu conglfeini i'n gwasanaeth fydd yn dychwelyd am flynyddoedd.

Gwerth am arian

Roedd 16/17 yn flwyddyn o sefydlogrwydd cymharol mewn termau ariannol i S4C. Fe ymrwymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i rewi toriadau oedd wedi'u cyhoeddi yn adolygiad gwariant 2015 hyd nes bod Adolygiad Annibynnol wedi'i gwblhau. Mae'r penderfyniad yma wedi bod yn un pwysig ac arwyddocaol i ni. Ond yn bwysicach efallai, yn weithredol, am y tro cyntaf ers i fi fod yn y swydd, mae e wedi'n galluogi ni yn S4C i newid cyfeiriad y sefydliad o fod yn un sy'n ymdopi'n barhaus gyda thoriadau newydd, i fod yn cynllunio siâp gwasanaethau'r dyfodol ac anghenion yr unig wasanaeth Cymraeg o'i fath.

Mae'n hymdrechion mew nol i gynyddu effeithlonrwydd yn parhau. Mae cost yr awr yn parhau'n isel iawn ac mae ein gorbenion yn isel hefyd. Er hyn mi fydd yn anos i gynnal y lefelau yma yn y dyfodol.

Roedd 'na gryn sylw yn ystod ail hanner y flwyddyn hon yn enwedig i'n cynlluniau i adleoli ein pencadlys i Gaerfyrddin. Digon yw dweud bellach bod unrhyw amheuon am ein bwriad i symud wedi hen bylu. Y tu hwnt i ddarpariaeth y gwasanaeth sylfaenol, dyma'r peth y bydda' i fwyaf balch o fod yn gysylltiedig ag ef yn ystod fy amser i fel Prif Weithredwr – sef sefydlu S4C mewn tair cymuned wahanol, yn y brif-ddinas, lle byddwn ni'n parhau i fod â phresenoldeb cryf yn natblygiad Sgwâr Canolog y BBC, yng Nghaernarfon, lle mae gennym swyddfa bwysig eisoes yn Noc Fictoria, a'n pencadlys newydd yng Nghaerfyrddin a fydd yn gatalydd pwysig newydd i'r diwydiannau creadigol a'r Gymraeg yn y cyffiniau.

Y Dyfodol

Hoffwn i gymryd y cyfle yma i ddiolch unwaith eto i'r staff yn fewnol am eu proffesiynoldeb mewn cyfnod estynedig o newid, gyda'n cynlluniau adleoli ar y gorwel o 2018, y toriadau cyllidebol a'r ansicrwydd parhaol ynglŷn â dyfodol ariannu S4C.

Mae lefel y llwyddiant yn glir i unrhyw un weld. Dwi'n ryw amau na fydd staff S4C yn treulio'u hamser yn ymfalchïo mewn llwyddiant beth bynnag. Yn hytrach, fe fyddan nhw'n parhau i ffocysu ar y gorwel a sicrhau eu bod yn cyrraedd y nod nesaf. Nawr, efallai yn fwy nag o'r blaen, mae angen i faterion cyllidebol a chylch gorchwyl gael eu datrys er mwyn symud ymlaen – ac mae hynny ynndo ei hun yn nod pwysig. Er pwysiced teledu o hyd – wrth edrych ar y dirwedd gyfryngol gyfoes, mae'n rhaid anelu at greu gwasanaeth cyflawn, sy'n cynnwys yr holl gyfryngau digidol y mae siaradwyr Cymraeg yn eu defnyddio.

factual programmes have proven very popular. From the stories of some of our most infamous crimes in Y Ditectif, to the inspiring and heart-warming characters of the children's ward in Ward Plant. We had content which was close to the viewer in Cymoedd Roy Noble, Pobl y Rhondda and Arfordir Cymru: Bae Ceredigion, and a season of programmes to commemorate the disaster at Aberfan half a century ago. It was an honour to commission and broadcast the exceptional work of Sir Karl Jenkins and Mererid Hopwood, Cantata Memoria – a particularly moving occasion. The Cantata Memoria is a fitting and lasting tribute to those who died at Aberfan and the dignity of their families. Being part of the event, to remember the horrors of that day in '66, will stay with me forever.

The memorial concert was a big event in itself for S4C, and our services from other big national events were extensive too. From the International Eisteddfod in Llangollen, and the Urdd Eisteddfod, to the big summer events, such as the National Eisteddfod and the Royal Welsh Show at Llanelwedd - many thousands of people were able to enjoy these national events on S4C even if they could not attend in person. Our service goes a long way – enabling diverse audiences in Wales, through the UK and overseas to enjoy our programming.

23	HUW EDWARDS A'R CYMRU ESTRON: STORI CYMRY LLUNDAIN	89	+1
24	T LLEW JONES	89	+3
25	HER YR HINSAWDD	89	+3

(Ffynhonnell Source: TRP)

(Yn seiliedig ar siaradwyr Cymraeg 16+, a gyda sampl o 25 neu'n fwy Based on Welsh speakers 16+, and programmes with a sample of 25 or more)



Lleisiau'r gwylwyr trwy gyfryngau cymdeithasol a Nosweithiau Gwylwyr

Viewers' voices via social media and Viewers' Evenings

Mae darpariaeth S4C o ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod yn gryf iawn, dwi'n hoffi gweld pobl dwi'n nabod ar sgrin" (Abertawe)

"Mae Jonathan yn dda iawn, mae'r comedi'n naturiol" (Blaenau Ffestiniog)

"...braf oedd clywed ffrindiau a theulu yn dweud eu bod eisiau gwyllo @S4C a hwythau'n newydd i'r sianel."

"Nes i rili mwynhau Hen Blant Bach, roedd y fformat yn newydd ag yn wahanol" (Lerpwl)

"Prynhawn dydd Sadwrn – Saturday Afternoon – Rugby & Cherd Dant! @GwylCerddDant @S4C

"@BBCymruFyw @S4C rhaid dweud fy mod i wedi bod yn gwyllo mwy a mwy ar S4C yn ddiweddar. Rhaglenni i bawb!"

"First, I want to say thank you very much for the content on your international website. I am a Welsh learner in the US, and not only does watching S4C help me improve my Welsh, I enjoy the programmes."

"GYMAINT o raglenni dogfen/adloniant gwych ar @S4C ar y funud: #prydoser #henblantbach #storimabwysiadu #ysalon"

"Newydd ddala lan gyda #AlbiaNoa...wel na beth yw clasur @S4C. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd #tonic"

"Ew! Rhaglenni diddorol ar @S4C heno. Dim wedi ei gweld o'r blaen. Mae'n rhaid i mi wyllo mwy o deledu."

"Mae'r rhaglen newyddion yn ardderchog, eisiau gwybod beth sydd yn digwydd yn y wlad, mae'n arbennig o bwysig i Gymry sydd yn byw tu allan i Gymru" (Lerpwl)

"@S4C you are fast becoming my favourite channel and I get to learn Welsh as well"

"Wrth fy modd yn gwyllo Rygbi a Phêl Droed ar S4C" (Blaenau Ffestiniog)

"...It's 48 yrs since I've lived in Wales. Love a lot of the S4C programmes, even if I need subtitles for most of them. Keeps Wales and the Welsh language deep rooted in my heart."

"Ma' Run Sbit yn hilerlys, mae'n hiwmor unigryw i Gymru" (Lerpwl)

"Llongyfarchiada @S4C @colegcymraeg @ERAResources am weithio mewn partneriaeth er lles dysgwyr #cryfachgydangilydd"

"Rhaglenni a chynnwys digidol da = gwylwyr. Arlwy @s4c dros y Nadolig wedi bod yn arbennig ac yn llwyddo i apelio i gynulleidfaoedd newydd."

"Dwi'n rili rili joio snapchat @S4C #goodjob"

S4C – Sianel Cymru

5. S4C i gael ei ystyried â chryfderau uwchlaw sianeli eraill wrth adlewyrchu Cymru a'r Cymry.

Mae'r gynulleidfa'n parhau o'r farn fod S4C yn adlewyrchu Cymru'n llwyddiannus.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn:

S4C – the Channel for Wales

5. S4C to be considered as having strengths above other channels when reflecting Wales and the Welsh people.

The audience continues to state that S4C reflects Wales successfully.


S4C's Image Tracking Survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that S4C is:




92%
Perthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl
Relevant to the identity of Wales and its people



84%
Sianel sy'n dangos sut beth yw byw yng Nghymru
A channel that shows what it's like to live in Wales




74%
Sianel sy'n adlewyrchu bywyd modern Cymreig
A channel that reflects modern Welsh life




86%
Sianel sy'n adlewyrchu cefn gwlad Cymru
A channel that reflects rural Wales



83%
Sianel sydd wedi fy addysgu am Gymru a'i phobl
A channel that has educated me in some way about Wales and its people



78%
Sianel sy'n dangos rhaglenni am fy ardal i o Gymru
A channel that shows programmes about my area of Wales



96%
Sianel sy'n darparu'r arlwy orau o Ddigwyddiadau Cenedlaethol yng Nghymru
A channel that has the best coverage of national events in Wales

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C, Beaufort Research, 2017)
(Source: S4C Image Tracking Survey, Beaufort Research, 2017)

S4C yw'r sianel sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant Cymru

Efaith

- 6. Gweithgarwch darlledu S4C i gael efaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru.
- 7. Gwerthfawrogiad a defnydd da o'r gwasanaethau ar gyfer plant.
- 8. Cael canfyddiad ymysg Dysgwyr o'r Gymraeg fod S4C yn darparu ar eu cyfer yn llwyddiannus gyda rhaglenni a gwasanaethau addas.

Mae S4C yn wasanaeth pwysig ar gyfer cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg

Mae gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg yn teimlo fod S4C yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru ac ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn:

S4C is the channel that reflects the life and culture of Wales


Impact

- 6. S4C's broadcast activity to have a positive impact on the development of the Welsh language and people's awareness of the culture of Wales.
- 7. Appreciation and good use of the services for children.
- 8. Achieve a perception amongst those learning Welsh that S4C successfully provides appropriate programmes and services for them.


S4C is an important service for supporting and promoting the Welsh language

S4C's Welsh speaking viewers feel that S4C has a positive effect on their awareness of Welsh culture and the development of the Welsh language.


S4C's Image Tracking Survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that S4C is:




96%
Sianel bwysig ar gyfer yr iaith Gymraeg
An important channel for the Welsh language




92%
Sianel sy'n cyfrannu at ddiwylliant Cymru
A channel that contributes to the culture of Wales




97%
Sianel sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg drwy ei rhaglenni a'i chynnwys
A channel supports the Welsh language through its programming and content




97%
Sianel sy'n cadw'r iaith Gymraeg yn fyw
A channel keeps the Welsh language alive



86%
Sianel sy'n cynyddu fy ymwybyddiaeth o ddiwyddiadau diwylliannol Cymraeg
A channel that makes me more aware of Welsh cultural events



78%
Sianel sy'n gwneud i'r iaith Gymraeg 'ddod yn fyw'
A channel that makes the Welsh language come alive



69%
Sianel sy'n gwneud i'r iaith Gymraeg ymddangos yn fwy modern a pherthnasol
A channel that makes the Welsh language seem more modern and relevant

S4C yn cyflwyno amrywiaeth cymdeithas ar y sgrin

Mae portreadu amrywiaeth o fewn cymdeithas ar y sgrin yn flaenoriaeth bwysig i S4C ac mae'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi portread S4C o amrywiaeth cymdeithas Cymru o fewn y gwasanaeth.

S4C - portraying the diversity of society on-screen



Portraying the diversity within society on-screen is an important priority for S4C and the audience appreciates S4C's portrayal of the diversity of society in Wales within the service.

Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn dangos fod gwylwyr Cymraeg o'r farn fod S4C yn "sianel sy'n llwyddo i adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n byw yng Nghymru o ran oedran, rhyw, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu ethnigrwydd ar draws ei rhaglenni", gydag S4C yn derbyn sgoriau sylweddol uwch na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Research work carried out during the year shows that Welsh speaking viewers believe that S4C is a "channel that successfully reflects the diversity of people living in Wales in terms of age, sex, disability, sexual orientation, religion or ethnicity across its programmes", with S4C receiving significantly higher scores than other public service broadcasters in Wales.



Y Salon



(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C, Beaufort Research, 2017)
(Source: S4C Image Tracking Survey, Beaufort Research, 2017)

Ymrwymiad S4C i gynnwys ar gyfer Plant

7. Gwerthfawrogiad a defnydd da o'r gwasanaethau ar gyfer plant.

Mae ymrwymiad cadarn S4C i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc – ar deledu a chyda storfa gyfoethog o ddeunyddiau arlein yn cael ei werthfawrogi gan ein gwylwyr.

Mae S4C yn parhau i gael ei ystyried i fod uwchlaw'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru o ran bod yn sianel sydd ag ymrwymiad arbennig i raglenni plant.

Mae'r defnydd o wasanaethau Cyw a Stwnsh – ar deledu ac arlein yn parhau i fod yn galonogol iawn, gyda'r gynulleidfa'n parhau i werthfawrogi'r ddarpariaeth llinol yn ogystal â'r gallu i wyllo'u hoff gyfresi ar alw.

S4C's commitment to content for Children

7. Appreciation and good use of the services for children.


S4C's commitment to provide Welsh language services for children and young people - on television and a significant collection of materials online is highly appreciated by our viewers.

S4C continues to be rated above other Welsh public service channels in terms of being a channel with a special commitment to children's programmes.


The usage of Cyw and Stwnsh – on television and online continues to be very encouraging, with the audience continuing to appreciate the linear service in addition to the ability to catch-up with favourite series.

Gwerthfawrogiad

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod S4C yn cael ei ystyried uwchlaw sianeli eraill yng Nghymru o ran ymrwymiad i raglenni plant, gyda gwylwyr sy'n siarad Cymraeg yn nodi:



94%
Mae'n bwysig iawn fod gwasanaeth teledu Cymraeg yn bodoli ar S4C ar gyfer plant
It's very important that there is a Welsh language television service for children on S4C





67%
Mae S4C yn sianel sydd ag ymrwymiad arbennig i raglenni plant
S4C is a channel that is especially committed to children's programmes


Appreciation

S4C's Audience Tracking Survey found that S4C is considered above other channels in Wales in terms of commitment to children's programmes, with viewers stating that:

Cyrhaeddiad misol Cyw ar deledu
Cyw's Monthly reach on TV



Cyrhaeddiad misol Stwnsh ar deledu
Stwnsh's Monthly reach on TV



S4C yn cefnogi Dysgwyr Cymraeg

8. Cael canfyddiad ymysg Dysgwyr o'r Gymraeg fod S4C yn darparu ar eu cyfer yn llwyddiannus gyda rhaglenni a gwasanaethau addas.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Dysgwyr yn bwnc sy'n cael sylw cyson yn Nosweithiau Gwylwyr S4C ac mae'r adborth a dderbynnir yn ategu canlyniadau gwaith ymchwil sy'n cael ei gynnal gan swyddogion S4C gyda rhanddeiliaid yn y maes dysgu Cymraeg, gan gynnwys y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a thiworiaid a chanolfannau iaith.


Holwyd am gefnogaeth S4C i ddysgwyr yn ystod Arolwg Tracio Delwedd S4C, a chafwyd ymateb cadarnhaol i ddarpariaeth S4C, gyda'r gwylwyr o'r farn fod S4C:

S4C supports Welsh Learners


8. Achieve a perception amongst those learning Welsh that S4C successfully provides appropriate programmes and services for them.

The provision for learners is a subject that is regularly discussed at S4C's Viewers' Evenings during the year, and feedback received supports the results of research conducted by S4C with stakeholders in the Welsh language learning sector, including the National Centre for Learning Welsh, tutors and language centres.


Positive responses were received to questions asked by S4C's Image Tracking Survey regarding S4C's support and provision for learners, with viewers stating that S4C:



85%
Yn sianel sy'n darparu gwasanaeth cymorth da ar gyfer dysgwyr Cymraeg
Is a channel that provides a good support service for Welsh learners



63%
Wedi gwella fy nealltwriaeth o eiriau Cymraeg
Has improved my understanding of Welsh words



37%
Wedi cyfrannu at fy mhenderfyniad i ddysgu Cymraeg
Has contributed to me learning Welsh



51%
Wedi fy ngwneud yn fwy hyderus o ran fy sgiliau iaith Gymraeg
makes me more confident in my use of the Welsh language

Croesawu pawb i wyllo S4C - Gwasanaethau Cymorth i'n cynulleidfa

Mae sicrhau bod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa ehangaf posibl yn bwysig iawn i S4C.

Mae gwasanaethau mynediad yn parhau i ddarparu modd pwysig i alluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa a'i hapêl.

Mae isdeitlo yn Saesneg ac yn Gymraeg, ynghyd ag arwyddo, sain ddisgrifio a gwasanaethau disgrifiadol ail-sgrin yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cyfoethogi darpariaeth S4C ac yn sicrhau fod cynnwys ar gael i rai sydd ag anghenion penodol yn ogystal ag i gymuned ehangach o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob lefel rhuglder a'r di-Gymraeg.

Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y fwyddyn:

Is-deitlau Cymraeg

Mae'r isdeitlau hyn ar gael yn bennaf ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â phobl sy'n dysgu siarad Cymraeg. Darparwyd isdeitlau Cymraeg ar 13 awr o raglenni bob wythnos ar gyfartaledd.

Mae isdeitlau Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael ar wasanaeth S4C Arlein.

Is-deitlau Saesneg

Bwriad y gwasanaeth hwn yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg, pobl fyddar a phobl trwm eu clyw. Trwy wasgu'r botwm "Is-deitlau" ar y teclyn rheoli, gellir gweld isdeitlau ar gyfer pob math o raglenni, gan gynnwys rhaglenni byw. Caiff rhai rhaglenni eu darlledu gydag isdeitlau agored. Fel arfer, ailddarllodiadau o raglenni poblogaidd yw'r rhain. Yn ystod y flwyddyn roedd is-deitlau Saesneg ar gael ar 80.51% o'r rhaglenni (mae targed Ofcom yn 53%).

Sain Ddisgrifio

Mae'r gwasanaeth Sain Ddisgrifio ar rai rhaglenni yn rhoi sylwebaeth, trwy ddewis, yn y Gymraeg i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni. Mae'n cynnwys disgrifiad ychwanegol i gynorthwyo defnyddwyr dall neu sydd â diffygion golwg i ddilyn rhaglenni'n haws. Darparwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 10.34% o'r rhaglenni - (mae targed Ofcom yn 10%).

'Arwyddo' rhaglenni

Cafodd rhai rhaglenni, fel arfer ar y penwythnos, eu harwyddo yn BSL (British Sign Language) ar gyfer gwylwyr byddar a'r rhai sy'n defnyddio iaith BSL. Roedd y gwasanaeth ar gael ar 5.19% o raglenni (mae targed Ofcom yn 5%).

Llinell gymorth 'Gwifren Gwylwyr'

Mae modd i'n gwylwyr gysylltu'n uniongyrchol gydag S4C drwy fonio, e-bostio, gysylltu ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon llythyr at y Wifren Gwylwyr. Mae manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr ar gael yng nghefn yr Adroddiad hwn. Mae'r gwasanaeth ar gael o 9.00 tan 22.00 saith diwrnod yr wythnos.

Welcoming everyone to watch S4C - Support Services for our audience

Ensuring that S4C content is available to the widest possible audience is very important to S4C.

Access services continue to provide important means for S4C to extend its audience and its appeal.

Subtitling in Welsh and English, together with signing, audio description and descriptive second screen services provide a range of services that enhance S4C's offering and make content available to those with particular needs as well as to a wider community of Welsh speakers, non-Welsh speakers and learners of all levels of fluency.

The following services were provided during the year:

Welsh subtitles

These subtitles are provided primarily for the deaf and hard of hearing who understand Welsh as well as for people learning to speak Welsh. Welsh language subtitles were provided on 13 hours of programmes a week on average.

Welsh language and English language subtitles are also available on the S4C Arlein service.

English subtitles

The aim of this service is to enhance the appeal of programmes to non-Welsh speaking, and deaf and hard of hearing viewers. By pressing the "subtitle" button on the remote control, subtitles can be accessed on all kinds of programmes, including live programmes. Some programmes were broadcast with automatic on-screen subtitles. These were usually repeats of popular programmes. During the year, subtitles were available on 80.51% of programmes (Ofcom's Target is 53%).

Audio Description

The Audio Description service on selected programmes provides a commentary in Welsh to fill the gaps during periods when there is no dialogue in programmes. It includes additional description that assists blind or partially sighted users. The service was provided on 10.34% of the programmes (Ofcom's Target is 10%).

Signing

Some programmes, usually at weekends, were broadcast using BSL (British Sign Language) for deaf viewers and those who use BSL. The service was available on 5.19% of programmes (Ofcom's Target is 5%).

Gwifren Gwylwyr (Viewers' Hotline)


Our viewers can contact S4C directly by either phoning, emailing, contacting via social media or sending a letter to Gwifren Gwylwyr. Gwifren Gwylwyr's contact details are available at the back of this report. The service is available from 9:00 until 22:00 seven days a week.

S4C yn gwranddo ar ein gwylwyr

Mae sicrhau trafodaeth a pherthynas reolaidd gyda'r gynulleidfa yn bwysig iawn i waith S4C, ac mae cyfleoedd ar gael drwy gydol y flwyddyn i ymwneud ag S4C.

S4C - listening to our viewers

Ensuring a regular dialogue and relationship with the audience is very important to our work, and opportunities are available throughout the year to engage with S4C.



Yn ystod 2016/17 cynhaliwyd nifer sylweddol o weithgareddau cymunedol ledled Cymru er mwyn rhoi cyfe i'r gynulleidfa fod yn rhan o arlwy S4C ac er mwyn rhoi cyfe i fynegi barn am wasanaethau S4C.

Daeth mwy na 36,000 o aelodau'r gynulleidfa i ddigwyddiadau cyhoeddus S4C a chafwyd 121,000 o geisiadau i gystadlaethau S4C.

Mae tîm Gwifren Gwylwyr S4C yn gweithio yn swyddfa S4C yng Nghaernarfon bob dydd o'r flwyddyn. Yn ystod 2016/17 cafwyd dros 13,000 o gysylltiadau gydag S4C drwy gyfrwng y Wifren. Mae'r tîm yn darparu crynodeb o'r sylwadau ar gyfer swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod.

Mae gan S4C Banel Ymateb Cynulleidfa sy'n cynnwys 1,500 o unigolion, a ddewiswyd i adlewyrchu poblogaeth Cymru. Mae'r panelwyr yn rhoi eu barn i S4C am y gwasanaeth a sgoriau gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni S4C.

Mae Nosweithiau Gwylwyr yn chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau cyfathrebu S4C, ac yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd nosweithiau gwylwyr yn Abertawe, Blaenau Ffestiniog a Lerpwl. Ar gyfartaledd, daeth tua 80 o aelodau'r cyhoedd i bob un o'r rhain.

During 2016/17 a significant number of community events were held across Wales to give the audience an opportunity to be involved in S4C's provision and a chance to voice their opinions about S4C's service.

More than 36,000 audience members attended S4C's public events and competitions attracted 121,000 entries.

The Gwifren Gwylwyr (Viewers' Hotline) team works in S4C's office in Caernarfon every day of the year. In 2016/17, more than 13,000 contacts were received by S4C's Gwifren Gwylwyr. The team prepares a summary of comments received for officers and members of the Authority.

S4C has an Audience Reaction Panel that consists of 1,500 individuals, recruited to reflect the population of Wales. The panelists provide S4C with their opinion about and appreciation scores for S4C's programming.

Viewers' Evenings play an important part within S4C's communication activities and, during the year, viewers' evenings were held in Swansea, Blaenau Ffestiniog and Liverpool. On average, 80 members of the public attended each event.

● Digwyddiadau Cenedlaethol National Events

Eisteddfod yr Urdd

Y Sioe Frenhinol

Yr Eisteddfod Genedlaethol

■ Digwyddiadau hyrwyddo rhaglenni Promotional Events

Gwyl Cymryd Rhan

Fferm Folly

Taith Tag/Rimbojam (blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd)

Taith Ewros (clybiau pel-droed)

Gêm y Sebonau

Penwythnos Teulu y Senedd

Tafwyl

Sioe Nadolig Cyw

▲ Nosweithiau Gwylwyr Viewers' Evenings

Noson gwylwyr Blaenau Ffestiniog

Noson gwylwyr Abertawe

Noson gwylwyr Lerpwl

S4C yn paratoi ar gyfer y dyfodol - “Gwthio’r Ffiniau”

Mae gan S4C weledigaeth glir ac uchelgeisiol o ran y gwasanaeth rydym yn dymuno’i ddarparu i’n cynulleidfa yn y dyfodol. Cyflwynwyd ein gweledigaeth yn “S4C: Gwthio’r Ffiniau”. http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/

Gobeithwn y bydd y weledigaeth hon yn ysgogi trafodaeth ehangach ymhlith ein cynulleidfa am eu disgwyliadau am ein gwasanaethau cyfryngau Cymraeg, ac y bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu i’r adolygiad o S4C y mae’r Llywodraeth am ei gynnal yn 2017.

Mae S4C yn angerddol am bwysigrwydd ei swyddogaeth o fod yn ddarparwr cynnwys Cymraeg deniadol, amrywiol, adloniannol, llawn gwybodaeth, sy’n greadigol, cystadleuol, a masnachol.

Rydym am esblygu o fod yn ddarledwr teledu gwasanaeth cyhoeddus traddodiadol i fod yn ddarparwr cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae ein gweledigaeth yn seiliedig ar bedair elfen allweddol:

- Sicrhau y gall y gynulleidfa ddefnyddio cynnwys S4C pryd, lle a sut y maent yn dewis.**
- Sicrhau bod cynnwys S4C yn fwy perthnasol, cystadleuol ac amrywiol.**
- Manteisio i’r eithaf ar werth gwasanaeth cyhoeddus ehangach S4C, gan gynnwys manteision economaidd, ieithyddol ac addysgol.**
- Strategaeth fasnachol a fydd yn parhau i ddarparu adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth a ddarparwn i’r gynulleidfa.**

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a ddarparwn i’n cynulleidfa yng Nghymru a ledled y DU, credwn y dylai’r adolygiad o S4C ystyried y pynciau canlynol:

Cylch gorchwyl a phwerau S4C
Dylid rhoi ystyriaeth i ddiweddaru cylch gorchwyl a phwerau S4C, a’u symud o fod yn seiliedig ar ddarparu ‘gwasanaeth teledu’ Cymraeg ar gyfer y gynulleidfa yng Nghymru i alluogi S4C i ddarparu gwasanaethau cyfryngau modern - ar ba bynnag lwyfannau a gwasanaethau sy’n datblygu yn y dyfodol, lle bynnag y mae’r gynulleidfa’n dewis gwylïo ein gwasanaethau.

Gofynion ariannol gweledigaeth S4C
Er mwyn galluogi S4C i wireddu’n gweledigaeth, a hefyd er mwyn delïo gyda phwysau ariannol parhaus, bydd angen buddsoddiad ychwanegol. Mae ein hasesiad o gostau cyflawni’r weledigaeth ac o ddelïo gyda’r pwysau presennol megis chwyddiant yn cael ei nodi’n fanwl yn S4C: Gwthio’r Ffiniau.

Egwyddorion a phroses ar gyfer ariannu yn y dyfodol
Er mwyn cynorthwyo’r Ysgrifennydd Gwladol i osod lefel y cyllid sydd ei angen ar S4C er mwyn darparu’n gwasanaethau, fel y nodir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011, mae angen datblygu proses wrthrychol a thryloyw er mwyn pennu lefel yr incwm cyhoeddus sydd ei angen er mwyn galluogi S4C i ddarparu ei wasanaethau a’i gweledigaeth. Dylai’r broses hon ystyried pwysigrwydd sicrhau nifer o ffynonellau o incwm cyhoeddus.

Dylai’r broses ddilyn egwyddorion rhyngwladol ar gyfer ystyried gofynion cyllido darledwyr a darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus:

***Sefydlog a digonol:** Ffynhonnell sefydlog a rhagweladwy o gyllid sy’n galluogi ymdrin â’r cylch gorchwyl gwasanaeth cyhoeddus yn llawn mewn oes cyfryngau digidol.*

***Yn annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol:** Nid yw cyfryngau cyhoeddus yn ddibynnol ar ffafr wleidyddol, gan felly gynyddu ffydd y cyhoedd ynddynt a’u rôl fel gwasanaeth gwirioneddol anhepgor.*

***Teg a chyfiawnadwy:** Yn deg ac yn gallu cael ei gyfiawnhau’n wrthrychol i’r cyhoedd a’r farchnad.*

***Tryloyw ac atebol:** Dull cyllido agored ac eglur sy’n dal Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn atebol i’w cynulleidfa.*

(ffynhonnell: Egwyddorion Ariannu Cyhoeddus ar gyfer Cyfryngau Gwasanaethau Cyhoeddus, EBU, 2017)

Pwerau masnachol S4C
Dylid symleiddio ac ehangu pwerau masnachol S4C er mwyn caniatáu i S4C ymwneud ag ystod o weithgareddau masnachol posibl a allai gynhyrchu refereniw ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C.

S4C preparing for the future – “Pushing the Boundaries”

S4C has a clear and ambitious vision of the service we wish to provide for our audience in the future. We set out our vision in “S4C: Pushing the Boundaries”. http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/

We hope that this vision will create a wider discussion amongst our audience about their expectations of our Welsh language media services, and that this in turn will inform the review of S4C that the Government is to hold in 2017.

S4C is passionately committed to being a creative, competitive and commercially minded provider of compelling, varied, entertaining and informative Welsh language content.

We want to evolve from being a traditional public service television broadcaster into a public service media content provider.

Our vision is built on four key elements:

- Ensuring the audience can access S4C’s content when, where and how they choose.**
- Making S4C’s content more relevant, competitive and diverse.**
- Maximising S4C’s wider public service value, including economic, linguistic and educational benefits.**
- A commercial strategy that will continue to deliver additional financial resources for the service we provide to the audience.**

To achieve our ambitions for the service we provide to our audience in Wales and across the UK, we believe that the review of S4C should consider the following subjects:

S4C’s remit and powers
Consideration should be given to updating S4C’s remit and powers, from being based on a requirement to provide a Welsh language ‘television service’ for the audience in Wales to enabling S4C to provide modern media services – on whatever platforms and services develop in future, wherever the audience chooses to watch our services.

Funding requirements to deliver S4C’s vision
To enable S4C to deliver our vision, and also to deal with continuing financial pressures, additional investment will be required. Our assessment of the costs of delivering the vision and of dealing with existing pressures such as inflation is set out in detail in S4C: Pushing the boundaries.

Principles and process for future funding
To assist the Secretary of State in setting the level of funding required by S4C to deliver our services, as set out in the Public Bodies Act 2011, an objective and transparent process should be developed to ascertain the level of public income that is required to enable S4C to deliver its services and its vision. This process should consider the importance of ensuring multiple sources of public income.

Such a process should follow international principles for considering the funding requirements of public service broadcasters and media providers:

***Stable and Adequate:** A stable and predictable source of funding enabling full coverage of the Public service remit in the digital media age*

***Independent from political interference:** Not reliant on political favour, thereby promoting public trust in PSM and its role as a truly indispensable service*

***Fair and Justifiable:** Fair and objectively justifiable to the public and the market*

***Transparent and Accountable:** An open and clear funding mechanism holding PSM accountable to its audience.*

(source: Public Funding Principles for Public Service Media, EBU, 2017)

S4C’s commercial powers
S4C’s commercial powers should be simplified and widened to enable S4C to participate in a range of potential commercial activities that could generate additional revenues for S4C’s public service.

Partneriaeth S4C gyda’r BBC

Mae S4C a’r BBC wedi gweithio mewn partneriaeth ers sefydlu S4C yn 1982.

Rydym yn gwerthfawrogi’n partneriaeth gyda’r BBC yn fawr, a’r manteision y mae’r cydweithrediad yn ei greu ar gyfer cynulleidfaoedd S4C a’r BBC.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth mewn sawl maes, gan gynnwys cyflenwi rhaglenni, cydweithio creadigol, technoleg a llwyfannau ac ariannu.

Cyflenwi rhaglenni
Ers 1982, mae BBC Cymru wedi darparu nifer o gonglfeini gwasanaeth S4C, gan gynnwys Pobol y Cwm, y ddarpariaeth newyddion, elfennau o’r ddarpariaeth chwaraeon a darllediadau cynhwysfawr o’r Eisteddfod Genedlaethol. Mae’r darpariaeth yma, sy’n cael ei chytuno rhwng S4C a’r BBC bob blwyddyn, yn rhan bwysig o amserlen S4C bob wythnos o’r flwyddyn ac yn cael ei gwerthfawrogi’n fawr gan y gynulleidfa.

Creadigol
Mae ein partneriaeth greadigol yn parhau i ddatblygu, gyda syniadau a phrosiectau cyffrous yn cael eu datblygu rhwng S4C a BBC Cymru, gan gynnwys cydweithio gyda Radio Cymru a Cymru Fyw i ddatblygu prosiectau newydd a rhannu a hyrwyddo’n gwasanaethau.

Mae cyd-gynyrchiadau gyda’r ddau ddarledwr, megis Y Gwyll / Hinterland, yn arwain at gyllidebau rhaglenni uwch a dosbarthiad ehangach i’r cynnwys.

Mae traws-hyrwyddo cynnwys, megis sylw i chwaraeon a Pobol y Cwm, yn cynyddu ymwybyddiaeth o gynnwys S4C ymhlith cynulleidfa eang.

Technoleg a llwyfannau
Mae presenoldeb cynnwys S4C ar iPlayer y BBC yn ddull pwysig iawn o gynnig ein cynnwys i gynulleidfa eang. Mae’r iPlayer yn rhoi amlygrwydd i gynnwys S4C ar draws ystod eang o ddyfeisiau na fyddai fel arall ar gael i S4C.

Bydd datblygiadau iPlayer yn y dyfodol, gan gynnwys personoli’r iPlayer ar gyfer defnyddwyr hefyd yn cynnig manteision ychwanegol i S4C a’n cynulleidfa.

Rydym yn parhau i ddatblygu cynigion i gydleoli swyddogaethau darlledu technegol S4C a BBC Cymru yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog Caerdydd. Dylai’r prosiect hwn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ariannol i S4C a BBC Cymru a’n galluogi i fanteisïo ar y datblygiadau diweddaraf ym maes technoleg darlledu.

Cyllid Ffi’r Drwydded
Yn 2016 daeth DCMS, S4C a’r BBC i gytundeb parthed cyfraniad Ffi’r Drwydded i’w ddarparu i S4C tan 2021/22. Mae darpariaethau’r cytundeb hwn, a nodir yn Nghytundeb Fframwaith newydd y BBC gyda’r Llywodraeth yn sicrhau £74.5m y flwyddyn i S4C (yn ychwanegol at grant DCMS) ar gyfer y cyfnod, a hefyd yn cynnwys ymrwymiad i barhau i ariannu S4C tan 2027/28, gyda’r swm ar gyfer y cyfnod hwn i’w nodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn ymgynghori gyda’r BBC ac S4C. Mae’r cytundeb hwn yn sicrhau elfen bwysig o sefydlogrwydd ariannol i S4C.

Daeth y Cytundeb Gweithredu gwreiddiol rhwng S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC, a oedd yn cynnwys manylion y bartneriaeth ariannol ac atebolrwydd, i ben ym mis Mawrth 2017 pan ddisodlwyd yr Ymddiriedolaeth gan Fwrdd Unedol newydd y BBC. Mae S4C a’r BBC wrthi’n datblygu fframwaith atebolrwydd ariannol newydd rhwng S4C a Bwrdd y BBC er mwyn rhoi sicrwydd i’r BBC o ran y defnydd o arian Ffi’r Drwydded gan S4C.

S4C’s partnership with the BBC

S4C and BBC have worked in partnership since S4C was established in 1982.

We greatly value our partnership with the BBC, and the benefits that our cooperation generates for S4C and the BBC’s audiences.

Our partnership spans a wide number of areas, including programme supply, creative collaboration, technology and platforms and financing.

Programme Supply
Since 1982, BBC Cymru has supplied a number of key elements of S4C’s service, including Pobol y Cwm, news provision, elements of sports provision and extensive coverage of the National Eisteddfod of Wales. This programming, whose content is subject to annual agreement between S4C and the BBC, forms an important part of S4C’s schedule every week of the year and is highly appreciated by the audience.

Creative
Our creative partnership continues to develop, with exciting ideas and projects being developed between S4C and BBC Cymru, including cooperation with Radio Cymru and Cymru Fyw to develop new projects and share and promote our services.

Co-productions involving both broadcasters, such as Y Gwyll / Hinterland, lead to enhanced programme budgets and wider distribution of the content.

Cross-promotion of content, such as sports coverage and Pobol y Cwm, increases awareness of S4C content amongst a wide audience.

Technology and platforms
The presence of S4C’s content on the BBC iPlayer provides an important means of accessing our content by a wide audience. The iPlayer gives S4C’s content prominence across a wide range of devices that would otherwise not be available to S4C.

Future iPlayer developments, including personalisation of the iPlayer experience for users, will also provide additional benefits to S4C and our audience.

We are continuing to develop proposals to co-locate S4C and BBC Cymru’s technical broadcast facilities in the BBC’s new Broadcast Centre in Central Square, Cardiff. This project should deliver financial efficiencies for both S4C and BBC Cymru and enable us both to exploit the latest developments in broadcast technology.

Licence Fee Funding
In 2016, DCMS, S4C and the BBC reached agreement regarding the Licence Fee contribution to be provided to S4C until 2021/22. The provisions of this agreement, set out in the BBC’s new Framework Agreement with the Government provides S4C with £74.5m each year for the period (in addition to the DCMS grant in aid contribution) and also a commitment to continue funding S4C until 2027/28, with the amount to be set out by the Secretary of State following consultation with the BBC and S4C. This agreement provides an important element of financial stability for S4C.

The original Operating Agreement between S4C and the BBC Trust, which governed the financial and accountability partnership came to an end in March 2017 when the Trust was replaced by the new BBC Unitary Board. S4C and the BBC are developing a new financial accountability framework between S4C and the BBC Board, to provide assurance to the BBC regarding the use of Licence Fee funds by S4C.

Yr Egin – Cartref newydd i S4C yn 2018

Yn 2018, bydd pencadlys S4C yn symud i ganolfan newydd Yr Egin yng Nghaerfyrddin.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd sylweddol o ran y paratoadau, gyda datblygwr y prosiect - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn derbyn caniatâd cynllunio, penodi adeiladwyr a chychwyn ar y gwaith adeiladu a derbyn cadarnhâd y bydd Llywodraeth Cymru'n cyfrannu arian grant i'r Brifysgol ar gyfer datblygu'r ganolfan.

Yn 2018, bydd oddeutu 55 - 60 o swyddi S4C yn adleoli i'r Egin, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Strategol a Rheoli, y Tim Creadigol a'r Tim Gweithredol, yn ogystal â thimau allweddol eraill megis Cyfathrebu, Busnes a Chyllid, Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, Cefnogi Cynnwys ac Arlein/digidol.

Gwledigaeth S4C

Wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer adleoli pencadlys S4C, roedd yn allweddol y byddai unrhyw gynllun yn cynnig budd i wasanaeth S4C, yn greadigol, yn olygyddol ac yn weithredol yn ogystal â sicrhau buddiannau ehangach i bartneriaid a sefydliadau fyddai'n cydweithio gydag S4C.

Byddai symud pencadlys S4C i ganolfan newydd yn sbardun i weledigaeth eang ac uchelgeisiol fyddai'n cael ei rhannu gan S4C, y Brifysgol a phartneriaid eraill i greu canolfan greadigol, flaengar a fyddai'n gartref i gymuned greadigol a diwylliannol, â'i drysau yn agored bob amser i'r gymuned leol a thu hwnt.

Wrth geisio cyflawni hyn nododd S4C nifer o egwyddorion clir ar gyfer y prosiect, gan gynnwys yr angen i sicrhau y byddai adleoli pencadlys S4C yn gost-niwtral i S4C dros gyfnod.

Cystadleuaeth agored i gynnig cartref newydd i S4C
Fe benderfynodd S4C adleoli i Gaerfyrddin yn dilyn proses a chystadleuaeth agored, pryd gwahoddwyd sefydliadau a rhanddeiliaid ledled Cymru i gyflwyno cynlluniau ar gyfer manteisio ar bresenoldeb pencadlys S4C i greu gwledigaeth ehangach.

Cyflwynwyd 14 o gynigion, ac ar ôl asesu pob cynnig a thrafodaethau gyda'rartneriaid, lluniwyd rhestr hir o 4 ac yna rhestr fer o 2 o geisiadau. Yn dilyn ystyriaeth fanwl o gryfderau'r ddau gais, penderfynwyd derbyn cynnig Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i sefydlu Canolfan Yr Egin fel cartref newydd i bencadlys S4C.

Cytundeb S4C a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Mae penderfyniad S4C i adleoli i Gaerfyrddin wedi arwain at gytundeb hir dymor gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Dyma grynodeb o'r trefniadau:

- Bydd S4C yn denant yn y ganolfan. Ni fydd S4C yn berchen ar yr adeilad.
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fydd yn gyfrifol am adeiladu ac ariannu'r ganolfan.
- Bydd S4C yn talu rhent ymlaen llaw o £3m ar gyfer cyfnod o 25 mlynedd, gyda'r hawl i derfynu'r cytundeb ar ôl 20 mlynedd.
- Bydd hefyd yn talu tâl gwasanaeth blynyddol ar gyfer gwasanaethau megis trydan, dwr, diogelwch a glanhau o fewn gofod S4C.
- Mae hyn yn rhoi sicrwydd i S4C am gyfnod hir iawn, ac yn cynnig gwerth da am arian o ran cost gofod swyddfa S4C.
- Rhoddodd y Brifysgol ymrwymiad di-droi'n ôl i S4C y byddai'n sicrhau ariannu costau datblygu ac adeiladu'r Egin.
- Mae'r Brifysgol wedi sicrhau cyfraniad grant o £3m o Lywodraeth Cymru ar gyfer gwireddu ei weledigaeth ar gyfer Yr Egin.
- Mae trafodaethau'r Brifysgol gyda darpar denantiaid eraill yn parhau, gyda nifer sylweddol o bartneriaid wedi mynegi awydd i fod yn rhan o gymuned yr Egin, gan gynnwys cymryd gofod swyddfa yn y ganolfan a bod yn rhan o'r weledigaeth ehangach.

Yr Egin – a new home for S4C in 2018

In 2018, S4C’s headquarters will move to the Yr Egin Centre in Carmarthen.

During the year, preparations for the move progressed significantly, with the project’s developer - the University of Wales Trinity Saint David gaining planning permission, appointing the main construction contractor and commencing construction work and receiving confirmation that the Welsh Government is to provide grant funding for the development.

In 2018, approximately 55 - 60 jobs will be relocated to Yr Egin, including the Chief Executive and the Strategic Management Board, the Operational and Creative Teams, as well as other key teams such as Communications, Business and Finance, Legal, Human Resources, Content Support and web.

S4C’s vision

In developing plans for the relocation of S4C’s headquarters, it was crucial that any scheme would deliver benefits for S4C’s service, creatively, editorially and operationally as well as delivering wider benefits to partners and organisations that will be collaborating with S4C.

The move of S4C’s headquarters to the new centre will be the springboard for a broad and ambitious vision that is shared by S4C, the University and other partners to create a creative and innovative centre that will be home to a creative and cultural community, that would open its doors to the local community and beyond.

In trying to achieve this, S4C stated several clear principles for the project, including the need to ensure that the relocation of S4C’s headquarters would be cost-neutral to S4C over a period.

An open competition to provide a new home for S4C
S4C decided to relocate to Carmarthen following an open competition and process, where organisations and stakeholders from across Wales were invited to submit plans that would take advantage of the presence of S4C’s headquarters to create a wider vision.

14 proposals were presented, and after assessing all proposals and discussions with partners, a long list of 4 and then a shortlist of 2 applications was selected. Following careful consideration of the strengths of both applications, it was decided to accept the proposal made by the University of Wales Trinity Saint David to establish Yr Egin as the new home for S4C’s headquarters.

S4C’s agreement with the University of Wales Trinity Saint David
S4C’s decision to relocate to Carmarthen has led to a long-term agreement with the University of Wales Trinity Saint David.

A summary of the arrangements is set out below:

- S4C will be a tenant in the centre. S4C will not own the building.
- The University of Wales Trinity Saint David will be responsible for building and financing the centre.
- S4C will make an advance rent payment of £3m for a period of 25 years, with a ‘break clause’ after the first 20 years.
- S4C will also pay an annual service charge for utilities such as electricity, water, security and cleaning within S4C’s space.
- This arrangement provides S4C with long term security, and offers good value for money in terms of the cost of S4C’s office space.
- The University provided S4C with a binding assurance that it will ensure Yr Egin’s development and building costs.
- The University has secured a grant contribution of £3m from the Welsh Government to realise its vision for Yr Egin.
- Discussions between the University and other prospective tenants are ongoing, with a significant number of partners having expressed a desire to be part of the community within Yr Egin, including taking office space in the centre and being part of the wider vision.

Gweithgareddau Masnachol S4C

Mae S4C wastad wedi mentro’n fasnachol er mwyn ceisio creu incwm ychwanegol ar gyfer y sianel ac er mwyn creu a hybu cyfleoedd ar gyfer ein partneriaid yn y sector gynhyrchu annibynnol.

O ddyddiau SuperTed i gyd-gynyrchiadau rhyngwladol a mentrau arloesol llwyfannau darlledu digidol, mae S4C wedi mentro gydag ystod o bartneriaid byd-eang.

Mae S4C Masnachol yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol gyda'r nod o greu ffrwd incwm cynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C.

Strategaeth Fasnachol S4C

Mae S4C wedi mabwysiadu strategaeth fasnachol sy’n rhoi’r pwyslais ar fanteisio ar gyfleoedd i ymestyn a hyrwyddo brand S4C a chreu incwm ychwanegol neu werth cyfalaf hir dymor i S4C.

Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £2m y flwyddyn ar gyfartaledd i’r gronfa gwasanaeth cyhoeddus. Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae hwn yn gyfraniad ariannol pwysig sy’n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu.

Bwrdir i’r strategaeth newydd fanteisio ar frandiau adnabyddus S4C tu hwnt i’r sgrin deledu, a’u defnyddio, mewn partneriaeth gydag eraill er mwyn creu incwm masnachol hir dymor.

Mae’r cynlluniau cyfredol yn cynnwys:

- Parhau i werthu hysbysebion, nawdd a thelesiopa, gan weithio gydag asiant hysbysebu S4C, Sky Media, er mwyn denu cleientiaid rhyngwladol, ond hefyd ceisio cynyddu’r nifer o hysbysebwr y Gymru;
- Defnyddio’r gwasanaeth teledu ac yn ogystal gyfleoedd ar-lein a digidol er mwyn cyflwyno cyfleoedd hysbysebu addas;
- Datblygu cynlluniau ar gyfer Fferm Cyw fel atyniad ymwelwyr masnachol yn seiliedig ar frand poblogaidd Cyw ar gyfer plant iau;
- Datblygu partneriaethau creadigol a masnachol gyda brandiau, sefydliadau, lleoliadau neu atyniadau a allai gynhyrchu mathau newydd o gynnwys ar gyfer y sianel linol, neu gynnwys ar-lein;
- Gweithio gyda phartneriaid ym myd addysg er mwyn cynyddu rôl brand Cyw yng nghwricwlwm y blynyddoedd cynnar gan greu adnoddau dysgu sy’n cefnogi trosglwyddiad iaith, yn ogystal â chynhyrchu incwm;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid S4C o fewn y sector gynhyrchu er mwyn canfod cyfleoedd i gydweithio ar brosiectau uchelgeisiol a phroffil uchel lle mae modd datblygu a manteisio ar gyfleoedd cyd-gynhyrchu a gwerthiant rhaglenni (gan wneud hyn o fewn y telerau masnach presennol);
- Partneru gyda Loteri Cymru - menter newydd sy’n bwriadu dosbarthu arian y bydd y Loteri yn ei godi, drwy elusen Hanfod Cymru i brosiectau addysgol. Mae S4C wedi sicrhau hawliau darlledu canlyniadau’r loteri a’r achosion da fydd yn derbyn arian o’r loteri; ac
- Ymchwilio i gyfleoedd buddsoddiadau ecwiti mewn prosiectau a chwmnïau digidol a chreadigol perthnasol a allai gynnig gwerth ychwanegol o ran cyflawni gwledigaeth S4C, a sicrhau enillion ariannol hir dymor.

Hwyluso Potensial Masnachol S4C

Mae pwerau masnachol presennol S4C yn gyfyngedig ac yn anhyblyg. Gall y darpariaethau statudol presennol sy’n ymwneud â gallu S4C i fuddsoddi mewn gweithgareddau masnachol newydd fod yn or-gymhleth ac anghymesur, gan gyfyngu ar allu S4C i gynhyrchu ffrydiau refeniw masnachol newydd.

Mae S4C yn awyddus i sicrhau pwerau masnachol ehangach a symlach (ac yn debycach i bwerau masnachol y BBC a Channel 4). Credwn y byddai modd cyflwyno fframwaith pwerau masnachol symlach a mwy perthnasol drwy Orchymyn seneddol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fel rhan o broses yr Adolygiad o S4C sydd i’w gynnal eleni, gobeithwn y bydd cyfle i drafod diweddarau’r pwerau masnachol.

S4C’s Commercial Activities

S4C has always participated in commercial ventures in order to generate additional income for the channel and to create and promote opportunities for our partners in the independent production sector.

From the days of SuperTed to international co-productions and innovative digital broadcasting platforms, S4C has ventured with a range of partners worldwide.

S4C Masnachol is responsible for a variety of commercial activities and investments with the aim of creating an additional, sustainable income stream for S4C’s public service.

S4C’s Commercial Strategy

S4C has adopted a commercial strategy that places emphasis on exploiting opportunities to extend and promote S4C’s brand and create additional income or long-term capital value for S4C.

S4C’s commercial activities contribute approximately £2m per year to the public service fund. Although this is a small percentage of S4C’s income, it is an important financial contribution that enables S4C to invest in content and services which otherwise could not be provided.

S4C’s new commercial strategy is intended to take advantage of S4C’s well-known brands beyond the TV screen, and to exploit them in partnership with others to create long-term commercial income.

Current plans include:

- Continuing to sell advertising, sponsorship and teleshopping, working with S4C’s advertising sales agent, Sky Media, in order to attract international clients, and also seeking to increase the number of advertisers from Wales;
- Using the television service in addition to online and digital opportunities to introduce appropriate advertising opportunities;
- Develop plans for a Fferm Cyw commercial tourist attraction based on the popular Cyw pre-school brand;
- Develop creative and commercial partnerships with brands, organisations, venues or attractions that could generate new types of content for the linear channel or online content;
- Working with partners in the education sector to develop the Cyw brand in the early years curriculum, creating learning resources that support language transmission, and also to generate income;
- Continue to work with S4C’s partners within the production sector to identify opportunities to cooperate on ambitious and high profile projects where we can develop and exploit co-production and programme sales opportunities (doing so within S4C’s terms of trade);
- Partner with Loteri Cymru - a new venture that intends to distribute money raised by the lottery, through the Hanfod Cymru charity, to local charitable projects throughout Wales, with an emphasis on general social needs, the arts and creativity, and on educational projects. S4C has secured broadcast rights for the lottery and stories relating to the good causes that will receive money from the lottery; and
- Explore equity investment opportunities in digital and creative projects and companies that could provide added value in relation to delivering S4C’s vision, and delivering long-term financial returns.

Facilitating S4C’s Commercial Potential

S4C’s existing commercial powers S4C are limited and inflexible. The current statutory provisions relating to S4C’s ability to invest in new commercial activities are overly complex and disproportionate, limiting S4C’s ability to generate new commercial revenue streams.

S4C is keen to ensure wider and simpler commercial powers (akin to the BBC and Channel 4’s commercial powers). We believe that a simpler commercial powers framework could be introduced by way of an Order by the Secretary of State. We hope that there will be an opportunity to discuss updating S4C’s commercial powers as part of the Review of S4C to be held this year.



Strwythur ac Atebolrwydd S4C

Mae S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu yn yr iaith Gymraeg.

Sefydlwyd S4C gan ddeddf gwlad yn 1981 yn unswydd ar gyfer darparu gwasanaethau teledu yn yr iaith Gymraeg.

Yn y ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C, cyfeirir at y gwasanaeth fel 'Sianel Pedwar Cymru' (S4C) a chyfeirir at y corff sy'n darparu'r gwasanaeth fel 'Awdurdod S4C', neu 'yr Awdurdod', sy'n gweithredu fel Bwrdd y corff. Er hwylustod, fel hyn y cyfeirir ato isod.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur a gwaith S4C ar wefan S4C www.s4c.cymru

Mae cyfrifoldebau allweddol yr Awdurdod yn cynnwys:

- sicrhau bod S4C yn darparu gwasanaethau teledu;
- sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau gyda'r gofynion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom;
- cymryd ystyriaeth o farn y gynulleidfa am arlwy gwasanaeth S4C;
- cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C;
- goruchwyllo, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C;
- gweithredu fel corff cyhoeddus;
- gweithredu fel rheoleidiwr ar faterion penodol;
- paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon; a
- phenodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd.

Penodir yr aelodau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol â'r broses benodiadau cyhoeddus. Mae nifer o brif swyddogion S4C, gan gynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cynnwys Creadigol, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd ac yn cymryd rhan yn nhrefnadaethau Bwrdd yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion. Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, swyddogion a staff S4C ydi rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu S4C.

Mae strwythurau llywodraethu a chyfrifoldebau S4C wedi datblygu ers ei lansio ym 1982 yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth, cyfrifoldebau rheoleiddio, y gwasanaethau a ddarperir a datblygiadau arfer gorau. Ar y dechrau, roedd aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi fel cynrychiolwyr cyrff llywodraethol darlledwyr eraill a rheoleiddwyr, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r sianel newydd lwyddo. Trosglwyddwyd llawer o gyfrifoldebau rheoleiddio i Ofcom dan ddeddfwriaeth yn 2003. Yn dilyn y penderfyniad y byddai cyllid i S4C yn cael ei ddarparu'n bennaf o ffi'r drwydded deledu, rhoddwyd Cytundeb Gweithredu ar waith rhwng S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC yn 2012/13 am gyfnod o bedair mlynedd, gydag Ymddiriedolaeth Cymru y BBC yn dod yn aelod o'r Awdurdod yn ystod y cyfnod.

